

RHEOLAU ETHOLIAD SENEDD IEUENCTID CYMRU

2021

Lluniwyd y ddogfen hon gan Gomisiwn y Senedd i'w defnyddio ar gyfer ethol Aelodau Senedd Ieuencid Cymru yn 2021.



CONTENTS

1.	<i>ETHOLIAD CENEDLAETHOL AR GYFER SENEDD IEUENCTID CYMRU ...</i>	3
2.	<i>CYMHWYSEDD I SEFYLL AR GYFER ETHOLIAD AC I BLEIDLEISIO</i>	5
3.	<i>YMGEISWYR.....</i>	8
4.	<i>ETHOLAETHAU.....</i>	10
5.	<i>Y BROSES ETHOLIAD.....</i>	11
6.	<i>PLEIDLEISWYR A PHLEIDLEISIO</i>	12
7.	<i>CANLYNIADAU'R ETHOLIAD.....</i>	13
8.	<i>CADW GWYBODAETH</i>	14
9.	<i>RHAGOR O WYBODAETH.....</i>	16

1.ETHOLIAD CENEDLAETHOL AR GYFER SENEDD IEUENCTID CYMRU

- 1.** Bydd gan Senedd Ieuencid Cymru 60 o Aelodau.
- 2.** Bydd proses etholiadol electronig yn cael ei defnyddio i ethol 40 o Aelodau Senedd Ieuencid Cymru drwy system 'cyntaf i'r felin', gan ethol un person ifanc ar gyfer pob etholaeth etholiadol yng Nghymru.
- 3.** Caiff y system etholiadol ar gyfer ethol y 40 Aelod etholaeth yn etholiad 2021 ei gweinyddu gan Mi-Voice.
- 4.** At ddiben yr etholiadau ar gyfer Senedd Ieuencid Cymru, diffinnir y 40 etholaeth fel y 40 ardal a ddefnyddir fel etholaethau yn etholiad Senedd Cymru yn 2021. Mae gwybodaeth am y 40 etholaeth etholiadol ar gael yma:
<https://senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd/>
- 5.** Bydd yr 20 Aelod o Senedd Ieuencid Cymru sy'n weddill yn cael eu hethol drwy sefydliadau partner a fydd yn cynnal eu hetholiadau mewnol eu hunain i benderfynu ar yr Aelodau hyn o Senedd Ieuencid Cymru.
- 6.** Nid oes yn rhaid i etholiadau'r sefydliadau partner gael eu cynnal ar yr un pryd â'r etholiad cenedlaethol (er y byddai hyn yn ddymunol), ond mae'n rhaid rhoi manylion holl Aelodau Senedd Ieuencid Cymru a gaiff eu hethol gan sefydliadau partner i Gomisiwn y Senedd erbyn diwedd cyfnod yr etholiad cenedlaethol, sef 22 Tachwedd. Os nad yw sefydliad partner yn gallu cynnig ymgeisydd erbyn y dyddiad hwn, dylid rhoi gwybod i Delyth Lewis, Rheolwr Prosiect Senedd Ieuencid Cymru, drwy anfon e-bost at helo@seneddieuencid.cymru neu drwy ffonio **0300 200 6565**. Mae'n rhaid i'r sefydliadau partner roi gwybod i Gomisiwn y Senedd enw'r ymgeisydd llwyddiannus, ei fanylion cyswllt a'i ddyddiad geni, yn ogystal â phroffil yr ymgeisydd, y 3 mater o bwys y mae'r ymgeisydd wedi'u dewis a llun o'r ymgeisydd.
- 7.** Ni ddylai sefydliadau partner a'r ymgeiswyr llwyddiannus a etholwyd gan sefydliadau partner gyhoeddi yn gyhoeddus pwy sydd wedi cael ei ethol fel Aelod

Senedd leuenctid Cymru hyd nes y bydd Comisiwn y Senedd wedi cyhoeddi pwy yw'r Aelodau ar 1 Rhagfyr 2021.

8. Dylai sefydliadau partner gael ymgeisydd wrth gefn.

2. CYMHWYSEDD I SEFYLL AR GYFER ETHOLIAD AC I BLEIDLEISIO

2.1 Yn ddarostyngedig i baragraffau 3.4 i 3.6, mae unrhyw berson ifanc rhwng 11 a 17 oed sy'n cydymffurfio â pharagraff 3.2 yn gymwys i sefyll fel ymgeisydd neu i bleidleisio yn etholiad etholaethol Senedd Ieuenctid Cymru. At y diben hwn, diffinnir person ifanc fel rhywun nad yw'n iau nag 11 mlwydd oed ac nad yw'n hŷn nag 17 mlwydd oed ar ddiwrnod olaf cyfnod yr etholiad cenedlaethol (22 Tachwedd).

2.2 Mae unrhyw berson ifanc sy'n byw yng Nghymru neu sy'n derbyn addysg yng Nghymru yn gymwys i sefyll fel ymgeisydd ac i bleidleisio yn etholiad etholaethol Senedd Ieuenctid Cymru. Diffinnir person ifanc sy'n 'byw yng Nghymru' fel rhywun sy'n breswlydd yn barhaol yng Nghymru, neu rywun sydd fel arfer yn breswlydd yng Nghymru. Diffinnir 'derbyn addysg yng Nghymru' fel person ifanc sy'n derbyn y mwyafrif o'i addysg yng Nghymru.

2.3 Gall y bobl ifanc hynny sy'n gymwys sefyll fel ymgeiswyr a phleidleisio naill ai yn yr etholaeth lle maent yn byw neu yn yr etholaeth lle maent yn derbyn eu haddysg (os ydynt yn wahanol).

2.4 Ni fydd person ifanc sy'n cyflawni dedfryd o garchar nad yw'n dod i ben cyn i ganlyniad yr etholiad gael ei gyhoeddi gan Gomisiwn y Senedd (1 Rhagfyr) yn gymwys i sefyll fel ymgeisydd i'w ethol i Senedd Ieuenctid Cymru nac i bleidleisio yn etholiad etholaethol Senedd Ieuenctid Cymru.

2.5 Ni fydd person ifanc sydd wedi cael ei gollfarnu neu rybuddio, neu sydd wedi bod yn ddarostyngedig i orchymyn tebyg** am drosedd berthnasol***, yn gymwys yn awtomatig i sefyll fel ymgeisydd i'w ethol i Senedd Ieuenctid Cymru. Ni fydd cadarnhau eich bod wedi cael eich collfarnu neu rybuddio, neu'ch bod wedi bod yn ddarostyngedig i orchymyn tebyg am drosedd berthnasol, yn eich gwahardd yn awtomatig rhag bod yn gymwys i sefyll. Byddwn yn ystyried pob enwebiad ar sail unigol. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried ein rhwymedigaethau o ran diogelwch, iechyd, llesiant a gwarchodaeth y person ifanc hwnnw, yn ogystal ag Aelodau eraill o Senedd Ieuenctid Cymru, staff Comisiwn y Senedd a'r cyhoedd.

Fel y bo angen a fel y bo'n gymesur, efallai y byddwn hefyd yn cysylltu ag asiantaethau eraill i asesu'r risg berthnasol a thrafod sut i reoli'r risg honno. Wrth wneud hynny, bydd Comisiwn y Senedd yn rhoi gwybod i'r person ifanc dan sylw a/neu'n gofyn am ei ganiatâd fel y bo angen. Caiff penderfyniad terfynol ar gymhwysedd ei wneud yn ôl disgrisiwn Comisiwn y Senedd yn unig, ac mae'r penderfyniad hwn yn derfynol.

2.6 Yn yr amgylchiadau sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraff 3.5, bydd tîm y Senedd leuenctid yn cysylltu ag unrhyw berson ifanc sydd â diddordeb mewn sefyll yn yr etholiad ac sydd wedi cael ei gollfarnu neu ei rybuddio, neu sydd wedi bod yn ddarostyngedig i orchymyn tebyg am drosedd berthnasol, ar ôl iddo wneud cais, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarparwyd, i drafod ei ddiddordeb mewn rhagor o fanylder. Gall unrhyw un sydd â chwestiynau am y broses hon gysylltu â Delyth Lewis, Rheolwr Prosiect Senedd leuenctid Cymru, drwy anfon e-bost at helo@seneddieuenctid.cymru neu drwy ffonio **0300 200 6565** i gael rhagor o wybodaeth.

2.7 Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae Comisiwn y Senedd yn trin ac yn defnyddio data personol ynghylch collfarnau, rhybuddion a throseddau perthnasol sy'n cael eu casglu fel rhan o'ch cais i sefyll yn etholiad Senedd leuenctid Cymru ar gael yn hysbysiad preifatrwydd y Comisiwn mewn perthynas ag enwebiadau, sydd ar gael yma: [Nominations \(mi-nomination.com\)](http://mi-nomination.com).

2.8 Bydd yn ofynnol i unrhyw berson ifanc sy'n 16 oed neu'n hŷn ac sy'n cael ei ethol i Senedd leuenctid Cymru, neu sy'n cyrraedd 16 oed yn ystod tymor Senedd leuenctid Cymru, gael gwiriad uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os yw'n ymgymryd â gweithgarwch rheoledig o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006. Os bydd tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cadarnhau bod gennych gollfarn, rhybudd, neu orchymyn tebyg am drosedd berthnasol, ni fyddwch yn cael eich gwahardd yn awtomatig rhag bod yn gymwys i sefyll. Bydd Comisiwn y Senedd yn ystyried cynnwys eich tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar sail unigol yn unol â'r egwyddorion sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraff 3.5 uchod.

2.9 Gofynnir i unrhyw berson ifanc gysylltu â Delyth Lewis, Rheolwr Prosiect Senedd leuenctid Cymru, ar unwaith drwy anfon e-bost at helo@seneddieuenctid.cymru, neu drwy ffonio **0300 200 6565**, os bydd yn cael ei gollfarnu, ei rybuddio neu ei wneud yn ddarostyngedig i orchymyn tebyg am drosedd berthnasol ar ôl i'w enwebiad gael ei dderbyn ond cyn i ganlyniad yr etholiad gael ei gyhoeddi gan Comisiwn y Senedd.

** yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, rybuddion terfynol a gorchmynion ar gyfer troseddau treisgar

*** trosedd berthnasol yw trosedd sy'n gwneud Aelodau eraill o Senedd Ieuenctid Cymru, staff Comisiwn y Cynulliad ac aelodau o'r cyhoedd yn agored i risgiau o ran diogelwch, iechyd, gwarchodaeth a lles, yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- a) trosedd dreisgar benodedig neu drosedd rywiol benodedig yn ôl y diffiniad yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 2003
- b) troseddau sy'n ymwneud ag arfau tân neu losgi bwriadol
- c) troseddau sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau neu sylweddau rheoledig yn anghyfreithlon neu'n ymwneud â delio neu fasnachu cyffuriau yn fasnachol
- d) troseddau sy'n ymwneud â brawychiaeth neu sy'n gysylltiedig â brawychiaeth

3. YMGEISWYR

3.1 Mae Comisiwn y Senedd (gan ymddwyn mewn modd cyfrifol) yn cadw'r hawl i wrthod derbyn cais am enwebiad.

3.2 Caiff yr holl geisiadau i enwebu ymgeiswyr eu gwirio gan Gomisiwn y Senedd.

3.3 I gofrestru i bleidleisio yn etholiad Senedd leuenctid Cymru, bydd angen i bobl ifanc cymwys gyflwyno'r wybodaeth a ganlyn ar y llwyfan Mi-Voice:

- Enw cyntaf ac enw olaf
- Cyfeiriad e-bost
- Rhif ffôn
- Y cod post cartref, neu'r cod post ar gyfer lle maent yn cael eu haddysg. Yr etholaeth y mae'r cod post a ddarperir ynnddi fydd yr etholaeth y mae'r person ifanc sy'n cofrestru i bleidleisio yn gymwys i bleidleisio ar ei chyfer.

3.4 Bydd yn rhaid i'r person ifanc sy'n cofrestru wirio'r wybodaeth hon cyn i'r cofrestriad gael ei gadarnhau.

3.5 I gyflwyno enwebiad i sefyll fel Aelod o Senedd leuenctid Cymru, bydd angen i bobl ifanc cymwys gyflwyno'r wybodaeth a ganlyn ar lwyfan Mi-Voice:

- Enw cyntaf a chyfenw
- Cyfeiriad e-bost
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad cartref
- Dyddiad geni
- Yr etholaeth y maent am sefyll i gael eu hethol ynnddi (sef naill ai cod post eu cartref neu'r cod post ar gyfer lle maent yn cael eu haddysg). Mae gwybodaeth am y 40 etholaeth etholaethol ar gael yma: <https://senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd/>

- Y 3 mater allweddol a ddewiswyd i ymgyrchu drostynt os caiff y person ifanc ei ethol – mae cyfyngiad o 5 gair ar gyfer pob mater.
- Datganiad yr ymgeisydd (dylai ganolbwyntio ar y rhesymau pam y creda y bydd yn Aelod da o Senedd Ieuenctid Cymru) - dim mwy na 200 o eiriau
- Ffotograff cywir (dewisol) ar fformat JPEG heb fod yn fwy na 4MB.

3.6 Dylai ymgeiswyr dicio'r blychau perthnasol sy'n datgan eu bod yn cadarnhau bod y wybodaeth a ddarparwyd ganddynt yn gywir, ac y byddant yn cydymffurfio â rheolau'r etholiad. Bydd hefyd angen nodi caniatâd rhiant neu warcheidwad wrth lenwi'r ffurflen.

3.7 Gall pobl ifanc cymwys sefyll ar gyfer eu hethol mewn etholaeth wahanol i'r un y maent yn pleidleisio ynnddi, os dymunant. Anogir pobl ifanc sy'n ceisio cofrestru i bleidleisio a / neu sefyll ar gyfer eu hethol i ddewis etholaethau lle maent yn byw neu'n derbyn eu haddysg, a fydd yn wahanol mewn rhai achosion.

4.ETHOLAETHAU

4.1 Bydd un Aelod o Senedd leuenctid Cymru yn cael ei ethol ar gyfer pob etholaeth. Bydd yr ymgeiswyr a etholir yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd.

4.2 Yn achos person ifanc sydd wedi'i ethol drwy system yr etholiad cenedlaethol 'cyntaf i'r felin' a thrwy'r sefydliad partner, y person ifanc fydd yn penderfynu pa sedd y mae'n ei dewis. Os bydd yn penderfynu cael ei ethol gan sefydliad partner, bydd y sedd etholaeth yn cael ei chynnig i'r person ifanc nesaf sydd â'r ail nifer fwyaf o bleidleisiau. Os yw'r person ifanc yn dewis y sedd etholaeth, mae'n rhaid i'r sefydliad partner fod ag ymgeisydd wrth gefn.

4.3 Yn achos person ifanc sy'n cael ei ethol drwy'r etholiad cenedlaethol 'cyntaf i'r felin' a thrwy'r sefydliad partner - a'r person ifanc yw'r unig ymgeisydd yn yr etholaeth honno - bydd y person ifanc yn cymryd y sedd etholaeth yn awtomatig, a bydd y sefydliad partner yn ethol Aelod wrth gefn.

5. Y BROSES ETHOLIAD

5.1 Bydd etholiadau Senedd Ieuencid Cymru ar gyfer tymor 2022-2023 yn cael eu cynnal ym mis Tachwedd 2021.

5.2 Cynhelir etholiadau etholaeth gan ddefnyddio'r system 'cyntaf i'r felin' yn unol â'r ffiniau etholaethol presennol. Mae'r system hon yn golygu y bydd yr ymgeisydd sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn ennill y sedd. Cynhelir yr etholiadau etholaeth ar gyfer etholiadau Senedd Ieuencid Cymru ar-lein.

5.3 Os bydd ymgeisydd mewn etholaeth yn sefyll heb wrthwynebiad, bydd yr unig ymgeisydd sy'n sefyll yn cael ei ethol fel Aelod Senedd Ieuencid Cymru ar gyfer yr etholaeth honno.

5.4 Os na fydd ymgeiswyr yn cael eu henwebu mewn sedd arbennig, caiff y cyfnod enwebu ei ymestyn hyd at ddechrau'r etholiad.

5.5 Yn achos pleidlais gyfartal, lle mae gan ddau neu ragor o ymgeiswyr yr un nifer o bleidleisiau, bydd yr ymgeiswyr yn tynnu lotiau i benderfynu ar yr ymgeisydd llwyddiannus.

5.6 Os bydd sedd yn wag oherwydd bod Aelod o Senedd Ieuencid Cymru yn methu â chwblhau ei gyfnod yn y rôl:

5.6.1 Os mai sefydliad partner sydd wedi ei ethol, mae'n rhaid i'r sefydliad partner ethol ymgeisydd wrth gefn.

5.6.2 Os y cafodd ei ethol drwy'r system 'cyntaf i'r felin', bydd y sedd yn cael ei chynnig i'r person ifanc gyda'r ail nifer uchaf o bleidleisiau. Os nad yw'r person hwnnw ar gael mwyach, cynigir y sedd i'r person ifanc â'r trydydd nifer uchaf o bleidleisiau ac yn y blaen. Os nad oes unrhyw un o'r bobl ifanc a safodd fel ymgeiswyr ar gael mwyach, cynhelir isetholiad tebyg i'r etholiad cenedlaethol.

5.6.3 Bydd Aelodau o Senedd Ieuencid Cymru sy'n llenwi seddi sydd wedi'u gadael yn wag yn ystod tymor Senedd Ieuencid Cymru yn gwasanaethu am weddill y tymor o ddwy flynedd, hyd at etholiad nesaf Senedd Ieuencid Cymru.

5.6.4 Os yw sedd wag yn codi dros 18 mis i mewn i'r tymor o ddwy flynedd, bydd y sedd honno'n aros yn wag.

6. PLEIDLEISWYR A PHLEIDLEISIO

6.1 Mae gan bob person ifanc cymwys y cyfle i bleidleisio i ethol Aelod o Senedd leuenctid Cymru i'w gynrychioli.

6.2 Oherwydd eu hoedran, nid yw'r holl bobl ifanc sy'n gymwys i bleidleisio yn etholiadau Senedd leuenctid Cymru ar y rhestr etholiadol, felly mae'n rhaid i bob person ifanc sydd am gymryd rhan yn etholiad Senedd leuenctid Cymru gofrestru i bleidleisio ar y llwyfan Mi-Voice:

<https://www.mi-nomination.com/wyprnominate/>.

6.3 Bydd y bobl ifanc hynny a gofrestrodd i bleidleisio yn etholiad Senedd leuenctid Cymru yn 2018, a'r rhai sy'n cofrestru i bleidleisio yn etholiad Senedd leuenctid Cymru 2021 rhwng mis Mai 2021 a 29 Hydref 2021, yn cael e-bost ar 1 Tachwedd 2021 gyda chod pleidleisio unigryw a linc i'r wefan bleidleisio.

6.4 Bydd y cyfnod cofrestru i bleidleiswyr yn dod i ben ar 12 Tachwedd. Bydd unrhyw berson ifanc sy'n cofrestru i bleidleisio rhwng 1 Tachwedd a 12 Tachwedd yn cael e-bost ar 15 Tachwedd 2021, gyda chod pleidleisio unigryw a linc i'r wefan bleidleisio.

6.5 Unwaith y bydd y person ifanc wedi cael mynediad at y wefan bleidleisio, bydd rhestr o'r holl ymgeiswyr sy'n sefyll ar gyfer eu hethol yn etholaethau eu dewis yn ymddangos, a gall y person ifanc ddewis pwy i bleidleisio drosto. Caiff neges e-bost ei hanfon i gadarnhau bod y bleidlais wedi'i bwrw.

6.6 Dim ond unwaith y bydd pob person ifanc sydd wedi cofrestru i bleidleisio yn cael bwrw pleidlais. Ni fydd y cod pleidleisio unigryw yn gweithio mwy nag unwaith.

6.7 Dylai pleidleiswyr sydd â gofynion penodol o ran pleidleisio gysylltu â helo@seneddieuenctid.cymru os oes angen rhagor o gymorth arnynt.

7. CANLYNIADAU'R ETHOLIAD

7.1 Unwaith y bydd yr etholiad yn dod i ben am hanner dydd ar 22 Tachwedd, caiff pleidleisiau eu cyfrif yn awtomatig drwy'r Ilwyfan Mi-Voice a bydd y canlyniadau ar gael yn fuan ar ôl hynny.

7.2 Bydd Comisiwn y Senedd yn cysylltu â phob ymgeisydd Ilwyddiannus yn gyfrinachol ar ôl i'r canlyniadau ddod i law i sicrhau ei fod yn fodlon gwasanaethu fel Aelod o Senedd leuenctid Cymru. Ni ddylai ymgeiswyr Ilwyddiannus roi gwybod i unrhyw un yn gyhoeddus eu bod wedi'u hethol yn Aelod o Senedd leuenctid Cymru hyd nes eu bod wedi cael gwybod bod canlyniadau'r etholiad ac enwau'r Aelodau etholedig wedi'u cyhoeddi'n ffurfiol ym mis Rhagfyr 2021.

7.3 Ar ôl yr etholiad, bydd Senedd leuenctid Cymru yn llunio adroddiad byr sy'n manylu ar y broses etholiadol, gan gynnwys manylion y ffigurau pleidleisio ac ystadegau allweddol eraill ynghylch cyfranogiad gan bleidleiswyr, i sicrhau bod y broses yn cael ei monitro a'i gwerthuso'n effeithiol

8. CADW GWYBODAETH

8.1 Mae Comisiwn y Senedd yn cyhoeddi gwybodaeth am breifatrwydd, sy'n amlinellu sut y mae'n prosesu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys am ba hyd y mae'n cadw'r wybodaeth hon. Mae'r wybodaeth berthnasol hon wedi'i rhannu'n hysbysiadau preifatrwydd, fel a ganlyn:

- Mae gwybodaeth am y ffordd y mae'r Comisiwn yn prosesu data personol y bobl ifanc sy'n cofrestru i bleidleisio yn etholiadau Senedd leuenctid Cymru ar gael yn hysbysiad preifatrwydd y Comisiwn ynghylch cofrestru i bleidleisio: [Nominations \(mi-nomination.com\)](https://nominations.mi-nomination.com);
- Mae gwybodaeth am y ffordd y mae'r Comisiwn yn prosesu data personol yr unigolion sydd wedi'u henwebu ar gael yn ei hysbysiad preifatrwydd ynghylch enwebiadau: [Nominations \(mi-nomination.com\)](https://nominations.mi-nomination.com);
- Mae gwybodaeth gyffredinol am y ffordd y caiff data personol eu prosesu mewn perthynas â Senedd leuenctid Cymru ar gael yn y prif hysbysiad preifatrwydd: <https://seneddieuenctid.senedd.cymru/polisi-preifatrwydd/>

8.2 O ran y cwestiwn am ba hyd y caiff data personol eu cadw, yn gryno, bydd Comisiwn y Senedd yn cadw manylion yr holl enwebeion a chanlyniadau'r bleidlais drwy gydol y cyfnod o ddwy flynedd.

8.3 Yn amodol ar baragraff 9.4, bydd unigolion sy'n cofrestru i bleidleisio yn parhau i fod wedi'u cofrestru ar ôl yr etholiad, a chaiff y cofrestriad hwnnw ei drosglwyddo at yr etholiad nesaf.

8.4 Bydd Comisiwn y Senedd yn adolygu'r rhestr o bleidleiswyr cofrestredig ar ddiwedd pob tymor i ddileu enwau unrhyw bleidleiswyr na fyddant yn gymwys ar gyfer etholiad nesaf Senedd leuenctid Cymru oherwydd eu hoedran. Hefyd, gall pleidleiswyr cofrestredig ofyn i'w data gael eu dileu drwy gysylltu â helo@seneddieuenctid.cymru.

8.5 Unwaith y cyhoeddir y canlyniadau, bydd yr holl wybodaeth a gesglir fel rhan o'ch cais i fod yn Aelod, ac eithrio gwybodaeth bersonol am gollfarnau, rhybuddion a throseddau perthnasol nad oes yn rhaid ei chadw ar ôl chwe mis, yn cael ei chadw mewn lleoliad diogel gan Comisiwn y Senedd drwy gydol y cyfnod o ddwy flynedd. Gwneir hyn rhag ofn y bydd unrhyw ymholiadau'n dod i law mewn perthynas â'r etholiad neu os y bydd angen troi at ymgeisydd wrth gefn. Ar

ôl y cyfnod hwn, bydd y ddogfennaeth sy'n gysylltiedig ag unigolion a gyflwynodd cais i fod yn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn cael ei dileu.

9. RHAGOR O WYBODAETH

9.1 Er mai bwriad y ddogfen hon yw cyflwyno paramedrau'r etholiad yn 2021, rydym yn deall y gallai cwestiynau ychwanegol godi. I gael rhagor o wybodaeth a chyngor, mae croeso i chi gysylltu â Chomisiwn y Senedd gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ganlyn:

- Senedd Cymru
Tîm Senedd Ieuenctid Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
- helo@seneddieuenctid.cymru
- 0300 200 6565